



Ydych chi yn gweithio mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru? Dyma sut gallwn ni eich cefnogi chi

Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru gofrestru gyda ni oherwydd ei fod yn ofyniad cyfreithiol.

Mae bod ar y [Gofrestr](#) yn golygu eich bod chi'n rhan o weithlu proffesiynol a gallwch chi ddangos bod gennych chi'r sgiliau a'r wybodaeth i ddarparu gofal a chymorth da i bobl Cymru.

Bydden ni yn eich cefnogi chi gyda:

Cofrestru

- Gallwch chi reoli eich cofrestriad trwy [GCCarlein](#).
- Mae adnoddau i'ch tywys chi trwy'r broses [gofrestru](#).
- Mae'r ddogfen '[hanfodion cofrestru](#)' yn cynnwys gwybodaeth am sut i gynnal eich cofrestriad.
- Gallwch chi ddod o hyd i amrywiaeth o adnoddau am [ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol Cymru](#) mewn un lle.

Eich gyrfa i ddarparu gofal a chymorth proffesiynol a diogel:

- Mae'r cod ymarfer proffesiynol a'r canllawiau ymarfer yn amlinellu'r safonau mae'n rhaid i weithwyr gofal proffesiynol ddilyn yn eu gwaith.
- Gwybodaeth i'ch helpu chi i gynllunio eich [Datblygiad proffesiynol parhaus](#) (DPP).
- [Canllawiau](#) i weithwyr ar gwblhau Fframwaith Sefydlu Cymru gyfan a [chymwysterau](#) eraill.
- Adnoddau i'ch helpu chi i ddefnyddio [Cymraeg yn y gwaith](#), gan gynnwys cyrsiau Cymraeg [Camau](#), sydd am ddim i weithwyr gofal cymdeithasol.
- Amrywiaeth o [fodiwlau dysgu](#) ar-lein.

Eich iechyd a'ch llesiant:

- Gallwch lawrlwytho'r [cerdyn gweithiwr gofal](#) ar GCCarlein. Mae'r cerdyn yn cydnabod pobl sy'n gweithio yn y sector ac yn eu galluogi i fanteisio ar fuddion amrywiol.
- Mae ein tudalennau [llesiant](#) yn cynnwys llawer o wybodaeth i'ch cynorthwyo â'ch llesiant corfforol, meddyliol ac ariannol. Hefyd, mae gwybodaeth am linell gymorth o'r enw [Canopi](#).

Sut gallwch chi gefnogi pobl eraill sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol

- [Dweud eich dweud](#) trwy gymryd rhan mewn ymgynghoriadau, arolygon a digwyddiadau.
- Dod yn [llysgennad](#) ar gyfer gofal cymdeithasol trwy gynllun Llysgenhadon Gofalwn.

